

YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2024

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ken Taylor (Chair) Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Neville Evans, Glyn Haynes, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts, Robin Williams.
WRTH LAW:	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLIJ), Peiriannydd Grŵp (Rheoli Datblygu a Rheoli Traffig) (AR), Uwch Swyddog Cynllunio (JR), Technegydd (Priffyrdd) (SD).
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr T LI Hughes MBE, Robert LI Jones a Liz Wood Aelodau Lleol : Cynghorwyr Carwyn Jones a Gary Pritchard (cais 2)
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelodau Lleol : Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones a Sonia Williams (cais 1 yn unig); Cynghorydd Alun Roberts (cais 2 yn unig)

-
- 1. FPL/2024/76 – Cais llawn i godi 27 annedd fforddiadwy, adeiladu ffordd fynediad fewnol, gwyro hawl tramwy cyhoeddus, creu bwnd tirlunio, codi ffens acwstig a gwaith cysylltiedig ar dir i'r Gogledd o Y Garnedd, Llanfairpwll.**

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio'r cais i aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwelwyd y safle o'r fynedfa arfaethedig newydd yn Y Garnedd, Llanfairpwll.

- 2. FPL/2024/105 – Cais llawn i godi 30 o anheddau preswyl (100% o unedau tai fforddiadwy), newidiadau i'r fynedfa bresennol, creu mynedfa newydd a ffordd fynediad fewnol ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Lleoliad: Tir i'r Gogledd-Ddwyrain o Gwêl y Llan, Llandegfan.**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y cais i aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwelwyd safle'r cais o'r fynedfa arfaethedig newydd yn Gwêl y Llan ac o Gwêl Eryri (Mill End Estate), Llandegfan.

**CYNGHORYDD KEN TAYLOR
CADEIRYDD**